# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT

## 10 TACHWEDD 2023

## Adroddiad Dirprwyedig y Swyddog Canlyniadau

## Adolygiad o Ardaloedd Pleidleisio, Mannau Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio

### Pwrpas yr Adroddiad

1. O dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, Deddf Gweinyddu Etholiadol 2006, Rheoliadau Adolygu Dosbarthau Pleidleisio a Mannau Pleidleisio (Etholiadau Seneddol) 2006, a Deddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013, mae'n ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot rhannu pob etholaeth sydd wedi'i lleoli o fewn ei hardal yn ddosbarthau pleidleisio at ddibenion etholiadau Senedd y DU, i ddynodi man pleidleisio ar gyfer pob dosbarth pleidleisio, ac i gadw'r rhain dan arolwg.

2. Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth uchod mae'n ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot gwblhau adolygiad llawn o bob dosbarth pleidleisio a man pleidleisio bob pum mlynedd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal newidiadau rhag cael eu gwneud ar unrhyw adeg cyn yr adolygiad nesaf os oes angen. Mae'r trefniadau a wneir ar gyfer etholiadau Seneddol y Deyrnas Unedig hefyd yn cael eu defnyddio ym mhob etholiad a refferenda arall.

3. Mae Adran 17 o Ddeddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013 yn diwygio Deddf 1983 yn ei gwneud yn ofynnol i adolygiad cychwynnol gael ei gynnal a'i gwblhau o fewn y cyfnod o 16 mis yn dechrau ar 1 Hydref 2013 ac wedi hynny bob pum mlynedd (gan fwriadu cysoni adolygiadau â'r cylch newydd o delerau Senedd y DU ac adolygiadau ffiniau).

4. Dechreuodd yr adolygiad presennol ar 2 Hydref, 2023 a disgwylir iddo ddod i ben ar 10 Tachwedd, 2023.

5. Mae gan y Swyddog Canlyniadau gyfrifoldeb personol dros benderfynu ar nifer a lleoliad Gorsafoedd Pleidleisio yn y Fwrdeistref Sirol.

6. Mae'r Swyddog Canlyniadau wedi penderfynu cynnal y ddau Adolygiad (Adolygiad o Ardaloedd Pleidleisio, Mannau Pleidleisio ac Adolygiad o Orsafoedd Pleidleisio) ar yr un pryd er mwyn ei gwneud yn fwy cyfleus i bobl ymateb i'r broses.

**Diffiniad o Dermau**

7. Dosbarth etholiadol yw'r is-adran ddaearyddol leiaf o ward etholiadol leol.

8. Mae man pleidleisio yn ardal ddaearyddol lle mae gorsaf bleidleisio. Gellir ei ddiffinio mor dynn ag adeilad penodol neu mor eang â'r dosbarth pleidleisio cyfan.

9. Bydd y man pleidleisio yn ardal yn y dosbarth pleidleisio, ac eithrio pan fo amgylchiadau arbennig yn ei gwneud yn ddymunol dynodi ardal sydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol y tu allan i'r dosbarth pleidleisio.

10. Gorsaf bleidleisio yw'r ardal wirioneddol neu'r ystafell benodol lle mae'r broses bleidleisio yn digwydd h.y. lle mae pleidleiswyr yn bwrw eu pleidleisiau. Rhaid iddo gael ei leoli o fewn y man pleidleisio a ddynodwyd ar gyfer yr orsaf bleidleisio benodol.

**Nod yr Adolygiad o Ardaloedd Pleidleisio a Mannau Pleidleisio**

11. Rhaid i Awdurdodau Lleol geisio sicrhau:

    a) Bod gan bob etholwr yn yr etholaeth gyfleusterau rhesymol ar gyfer pleidleisio ag sy’n ymarferol dan yr amgylchiadau;

b) Cyn belled ag y bo'n rhesymol ac ymarferol, bod pob man pleidleisio yn hygyrch i'w holl etholwyr, gan gynnwys y rhai ag anableddau;

12. Nid yw'r Adolygiad o Ardaloedd Pleidleisio a Mannau Pleidleisio yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

a) Ffiniau Etholaethau Seneddol y DU;
b) Ffiniau, enwau ac ardaloedd etholiadol Awdurdodau Lleol.

**Gweithdrefn Adolygu Dosbarthau Pleidleisio a Mannau Pleidleisio**

13. Mae'r weithdrefn adolygu a ddilynwyd gan yr Awdurdod Lleol wedi'i chrynhoi isod:

14. **Cam 1** - Mae'r Awdurdod yn rhoi hysbysiad cyhoeddus o'i fwriad i gynnal adolygiad ac yn gwahodd sylwadau a chyflwyniadau gan unrhyw bartïon â diddordeb;

15. **Cam 2** - Mae'r Awdurdod yn ystyried yr holl gyflwyniadau a ddaw i law cyn i'r Swyddog Canlyniadau wneud penderfyniad terfynol ynghylch y strwythur Dosbarthau Pleidleisio a Mannau Pleidleisio newydd. Fodd bynnag, nid oes gofyniad i newid unrhyw drefniadau presennol. Yna cyhoeddir canlyniad yr adolygiad.

16. Ystyrir cyflwyniadau adborth gan y Swyddog Canlyniadau a gwneir penderfyniadau yn unol â hynny.

**Cydadolygiad o Ardaloedd Pleidleisio, Mannau Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio**

17. Dechreuodd Cam 1 ar 2 Hydref 2023 gyda chyhoeddi Hysbysiad Adolygu Dosbarthiadau Pleidleisio, Mannau Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio ar Wefan y Cyngor. Roedd yr hysbysiad yn gwahodd sylwadau a chyflwyniadau ar y trefniadau presennol a Sylwadau’r Swyddog Canlyniadau (Atodiad 1) erbyn 2 Tachwedd 2023.

Cyhoeddwyd ffurflen ymgynghori ar-lein ar gyfer yr adolygiad hefyd ar wefan y Cyngor.

18. Ar yr un pryd, anfonwyd gohebiaeth yn gwahodd adborth ar y trefniadau presennol a Sylwadau'r Swyddog Canlyniadau at:

a) Pob Cynghorydd, AS y DU, AS Cymru a Chynghorau Cymuned / Tref sy'n cynrychioli ardal Castell-nedd Port Talbot; a

b) Grwpiau sy'n cynrychioli nodweddion gwarchodedig, megis Cymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME), Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LHDT), ac Anableddau trwy'r fforwm Cymunedau Ymarfer.

19. mae'r cyflwyniadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad wedi'u crynhoi yn Atodiad 2 'crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd'. Bu'r rhain yn gymorth i lunio'r penderfyniadau terfynol yn ymwneud â dosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio a nodir yn Atodiad 3 yr adroddiad. Mae Atodiad 3 yn crynhoi'r newidiadau a wnaed gan y Swyddog Canlyniadau i drefniadau gorsafoedd pleidleisio.

20. Mae asesiad effaith cam cyntaf wedi'i gynnal i gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau deddfwriaethol (o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010,Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

21. Yn dilyn yr Asesiad Effaith Cam Cyntaf, penderfynwyd nad oedd angen cynnal Asesiad Effaith Llawn oherwydd yr effaith isel yn bennaf a'r risg sy'n gysylltiedig â newid lleoliad gorsafoedd pleidleisio mewn rhai ardaloedd o'r Fwrdeistref Sirol.

22. Ymhellach, er y derbynnir y gall fod gan etholwyr siwrnai ychydig yn hirach i'w gorsaf bleidleisio mewn rhai achosion, bydd yr holl etholwyr yn cael gwybod am y newidiadau cyn gynted â phosibl ac yn cael eu hatgoffa o'r cyfleuster i wneud cais am pleidlais post neu ddirprwy os ydynt yn ystyried lleoliad yr orsaf bleidleisio newydd yn anghyfleus

iddynt.

**Determination**

23. Fel Swyddog Canlyniadau, rwyf wedi ystyried yr ymatebion fel y'u hamlinellir yn Atodiad 2. Bu'r rhain yn gymorth i lunio fy mhenderfyniad terfynol ynghylch dosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio a nodir yn Atodiad 3 yr adroddiad. Mae Atodiad 3 yn crynhoi'r newidiadau a wnaed i drefniadau gorsafoedd pleidleisio.

24. Mae'r penderfyniadau'n darparu ar gyfer rheoli'r broses etholiadol yn effeithiol o fewn y Fwrdeistref Sirol ac i gyflawni'r dyletswyddau cyfreithiol amrywiol y cyfeirir atynt yn yr adroddiad a osodir ar y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn eu rôl fel Swyddog Canlyniadau.

25. Wrth arfer yr awdurdod dirprwyedig a roddwyd i mi yng Nghyfansoddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ac fel Swyddog Canlyniadau, cadarnhaf:

    (a) na fydd unrhyw newidiadau i unrhyw un o’r rhanbarthau pleidleisio a’r mannau pleidleisio (ac eithrio ail-ddilyniannu codau dosbarthau pleidleisio fel y bo’n briodol i gynnwys ffiniau etholaethau newydd Senedd y DU maes o law).

    (b) y newidiadau yr wyf yn bwriadu eu gwneud i leoliad rhai gorsafoedd pleidleisio fel y nodir yn Atodiad 3.

26. Daw'r trefniadau pleidleisio diwygiedig i rym ar 1 Rhagfyr, 2023.

**Penderfyniadau’r Swyddog Canlyniadau**

27. I cadarnhau penderfyniad y Swyddog Canlyniadau na fydd unrhyw newidiadau i unrhyw un o'r Dosbarthau Pleidleisio a Mannau Pleidleisio yn y Fwrdeistref Sirol.
Llofnodwyd:



Enw: **Karen Jones (Swyddog Canlyniadau)**

Dyddiad: **10 November 2023**

**Atodiadau**

28. Atodiad 1 - Sylwadau'r Swyddog Canlyniadau

29. Atodiad 2 - Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad a Dderbyniwyd

30. Atodiad 3 - Argymhellion Terfynol y Swyddog Canlyniadau mewn perthynas â Dosbarthiadau Pleidleisio, Mannau Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio.

**Papurau Cefndir**

31. Asesiad Effaith Integredig Cam Cyntaf

32. **Cysylltiadau Swyddogion**

Karen Jones – Prif Weithredwr
Ffon: 01639 763284
E-bost: chief.executive@npt.gov.uk

Craig Griffiths – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
Ffon: 01639 763767
E-bost: c.griffiths2@npt.gov.uk
Rhys George – Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol
Ffon: 01639 763719
E-bost: r.j.george@npt.gov.uk